# CYNLLUN PONTIO
# CLWSTWR LLANHARI

## 2025 – 2026

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Medi 2025

# Grŵp Llywio'r Cynllun Pontio

**Penaethiaid yr ysgolion Cynradd cysylltiedig a Phennaeth Ysgol Llanhari :**

| | |
|---|---|
| Mrs Meinir Thomas | Ysgol Llanhari |
| Miss Nia Pugh | Ysgol Gynradd Dolau |
| Miss Nia Downes | Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail |
| Mr Ryan O'Neil | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant |

**Arweinydd Pontio:**

| | |
|---|---|
| Mrs Cath Webb | Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Llanhari |

**Staff Allweddol**

| | |
|---|---|
| ALNCo Ysgol Llanhari | Mrs Elin Hobbs |
| Pennaeth Cynorthwyol Lles | Mrs Elen George |
| Arweinydd Cynnydd Bl.7 | Mr John Rivers |
| ALNCo Ysgol Gynradd Dolau | Mrs Sally-Anne Leyshon |
| ALNCo YGG Tonyrefail | Miss Harriet John |
| ALNCo YGGG Llantrisant | Miss Rebecca Jones |

**Aelodau Pwyllgor y Cwricwlwm**

| | |
|---|---|
| Ysgol Llanhari | Mrs Cath Webb (Cadeirydd) |
| | Miss Angharad Morgan |
| Ysgol Gynradd Dolau | Miss Rhian Jenkins |
| YGG Tonyrefail | Miss Ceri Hughes |
| YGGG Llantrisant | Miss Sara Williams |

**Athrawon Blwyddyn 6**

| | |
|---|---|
| Ysgol Llanhari | Miss Imogen Hunt |
| Ysgol Gynradd Dolau | Miss Mali Widgery |
| YGG Tonyrefail | Miss Ceri Hughes |
| YGGG Llantrisant | Miss Sara Williams |

# Cynllun Pontio Clwstwr Llanhari

Mae Clwstwr Llanhari yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn datblygu cynlluniau, prosesau a chwricwlwm mewn modd sy'n sicrhau dilyniant a chynnydd i bob dysgwr wrth iddo/i bontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Crêd y Clwstwr yn gryf bod adeiladu ar gyrhaeddiad a chyflawniad blaenorol a chefnogi lles dysgwyr wrth iddynt bonito i Flwyddyn 7 yn allweddol i sicrhau fod pob unigolyn yn llwyddo a ffynnu.

Mae'r bedair ysgol yn ymrwymiedig i ddiben y cynllun hwn er mwyn sicrhau y profiad addysgol a chymdeithasol gorau i bob unigolyn dan eu gofal wrth anelu i'w gwneud yn ddysgwyr iach, hyderus, uchelgeisiol, creadigol a mentrus a fydd yn barod i fod yn ddinasyddion egwyddorol yn yr unfed ganrif ar hugain.

Lluniwyd y Cynllun Pontio hwn ar y cyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Llanhari ac mae wedi ei gytuno gan gyrff Llywodraethu yr ysgolion Cynradd sy'n ein bwydo, sef Ysgol Dolau, YGG Tonyrefail a YGGG Llantrisant

Y garfan o ddysgwyr y mae'r Cynllun hwn yn gymwys ar eu cyfer ydy dysgwyr Blwyddyn 6 sy'n symud i Flwyddyn 7 yn nhymor yr Hydref 2026 (blwyddyn academaidd 2026 i 2027)

**Diben ein Cynllun Pontio**

Diben y cynllun hwn yw cefnogi'r broses o bontio'r carfan o ddysgwyr sy'n symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 o dan y Cwricwlwm i Gymru.

Mae ein Cynllun yn canolbwyntio ar sut y bydd parhad dysgu'n cael ei sicrhau drwy gynllunio'r cwricwlwm, cynllunio ac addysgu ar gyfer dysgu dysgwyr Blwyddyn 6 o dan y Cwricwlwm i Gymru, a sut y bydd anghenion a lles dysgwyr unigol yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod pontio.

Anelwn at:

- gefnogi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng Ysgol Llanhari a'r ysgolion Cynradd sy'n ein bwydo
- gydweithio i gefnogi cynnydd cydlynol gan ddysgwyr
- gynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd
- gefnogi anghenion lles cyffredinol dysgwyr
- sicrhau cyflymder a her briodol yn y ffordd rydym yn ymdrin â chynnydd wrth fireinio ein cwricwlwm a'n trefniadau asesu

**Cefnogi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion y Clwstwr**

Yr Arweinydd Pontio sy'n cymryd cyfrifoldeb am lunio calendr y flwyddyn a chydlynu cyfleoedd i Benaethiaid a staff allweddol yr ysgolion i gwrdd er mwyn sicrhau ein bod ni fel clwstwr yn cyrraedd amcanion y Cynllun Pontio.

Rydym wedi llunio a chyhoeddi Crynodeb Cwricwlwm i Gymru ar y cyd fel clwstwr.

**Cefnogi cynnydd cydlynol gan ddysgwyr**

Trefnir i Bwyllgor y Cwricwlwm ac i Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad sy'n rhan o'n Is-Bwyllgorau Clwstwr i gwrdd er mwyn cydweithio i sicrhau continwwm dysgu effeithiol sy'n galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon.

Mae cynllunio ein cwricwlwm yn sgwrs barhaus rhwng y bedair ysgol i sicrhau ei fod yn ddilys i'n disgyblion ac yn adlewyrchu anghenion a chyd-destun ein cymunedau. Mae'r dysgwyr yn parhau i fod yn ganolog i'r broses a'u barn yn annatod. Parhewn i gynnal trafodaethau er mwyn gallu mireinio pa wybodaeth, sgiliau a phrofiadau fydd yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar hyd y continwwm ac yn cefnogi ein dysgwyr i symud ymlaen.

Y Pedwar Diben sydd wrth wraidd cwricwlwm Clwstwr Llanhari a dyma yw ein dyhead ar gyfer bob un o'n dysgwyr. Mae cwricwlwm ein hysgolion yn eang, cytbwys a chynhwysol ac yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau. Mae'n cynnwys cyfleoedd dysgu o fewn ac ar draws bob un o'r Chwe Maes Dysgu a Phrofiad ac yn cwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Wrth wireddu'r cwricwlwm, byddwn yn meithrin dealltwriaeth ein dysgwyr o'r themâu trawsgwricwlaidd a rhown ystyriaeth lawn hefyd i elfennau gorfodol y Cwricwlwm.

Mae sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi'u hymwreiddio drwy'r cwricwlwm a sicrhewn fod digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu, mireinio a chymhwyso'r sgiliau yma ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

**Dealltwriaeth gyffredin o gynnydd**

Mae Clwstwr Llanhari yn gytûn mai cynnydd o fewn dysgu yw'r broses o ddatblygu a gwella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dros amser. Yr Egwyddorion Cynnydd yw'r sylfaen i'n cwricwlwm o fewn y clwstwr ac mae'r Disgrifiadau Dysgu yn rhoi arweiniad ar sut y dylai ein dysgwyr symud ymlaen ar draws ein continwwm dysgu.

Mae ysgolion y Clwstwr yn trefnu amser er mwyn i arweinwyr ac athrawon fedru trafod yn broffesiynol. Cynhelir deialog er mwyn parhau i ddatblygu a chynnal dealltwriaeth gytûn o gynnydd. Mae Is-Bwyllgorau'r bedair ysgol yn arwain ar y cydweithio o fewn eu hysgolion er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn deall sut dylai cynnydd dysgwyr edrych a gweithiwn at ddarparu pwyntiau cyfierio i lywio'r gwaith o gynllunio a dysgu ac addysgu'r cwricwlwm. Helpa hyn i ymarferwyr feddwl am a defnyddio ystod eang o ddulliau asesu i ddeall cynnydd (e.e. darparu adborth o ansawdd uchel i ddysgwyr, hunanasesu ac asesu cyfoedion). Ni fydd unrhyw un dull asesu yn cipio cynnydd dysgwyr yn llawn ac felly defnyddiwn ystod eang i

greu darlun cyfannol o'r dysgwr a'u cefnogi i wneud cynnydd mewn perthynas â chwricwlwm ein hysgolion unigol.

Cytuna'r bedair ysgol mai asesu yw'r broses o edrych ar gynnydd ein dysgwyr. Fel clwstwr, hoffem i'n dysgwyr wybod ble maen nhw ar eu taith ddysgu, i ble mae angen iddyn nhw fynd, a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i gyrraedd yno. Rydym yn cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd trwy asesu ar gyfer dysgu yn ogystal â nodi cynnydd dysgwyr unigol dros amser.

Bydd dysgwyr Blwyddyn 6 yn cymryd yr asesiadau personol. Mae'r rhain yn rhoi offeryn ffurfiannol i ni fel clwstwr i fyfyrio ar gryfderau dysgwyr mewn darllen a rhifedd, a'r camau nesaf posibl i fwrw ymlaen â'u dysgu. Trefnwn i athrawon Blwyddyn 6 i rannu'r wybodaeth yma am gynnydd yn ystod cyfarfod gyda staff Ysgol Llanhari yn nhymor yr Haf.

Rhanna athrawon Blwyddyn 6 'Ddangosyddion Dosbarth' yn nhymor yr Haf. Gwneir hyn ar gyfer Mathemateg a Rhifedd yn ogystal â *Llafaredd*, *Darllen* ac *Ysgrifennu* o fewn y MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg). Mae'r Dangosyddion yn dangos **cynnydd** yn erbyn **cyrhaeddiad** sy'n rhoi darlun cyffredinol o **gyflawniad**. Mae gan y Clwtswr ddiffiniadau cytûn o beth yw cynnydd, cyrhaeddiad a chyflawniad a rhennir y wybodaeth hyn gyda staff ym mhob ysgol gynradd er mwyn sicrhau cysondeb wrth asesu a chwblhau'r dangosyddion.

Cwblheir taenlen 'Agwedd at Ddysgu' hefyd ble roddir gradd i bob disgybl ar gyfer elfennau megis parch, cyfraniad, a dyfalbarhad a gwytnwch. Ceir raddfa o 1-4, gyda 1 yn cynrychioli 'testun pryder' a 4 yn cynrychioli 'ardderchog'. Defnyddir hyn fel arf i ddyfnhau ein gwybodaeth o unigolion ac esbonio'n rhannol os ydy disgybl wedi gwneud cynnydd isel ym Mlwyddyn 6. Galluoga hyn i ni yn Ysgol Llanhari i baratoi a darparu cymorth ym Mlwyddyn 7 yn ôl yr angen.

**<u>Cefnogi anghenion lles cyffredinol dysgwyr</u>**

Er yn gyfnod cyffrous, cydnabyddwn bod symud i ysgol / adran newydd yn gam mawr sy'n gallu peri gofid i rai unigolion a'u teuluoedd. Gwnawn ein gorau felly i wneud trefniadau er mwyn helpu i leddfu pryderon yn gynnar yn ystod y flwyddyn academaidd.

- <u>Ymweliadau â'r ysgol</u>

Bydd rhieni disgyblion Blwyddyn 6 wedi cael cyfle i fynd o gwmpas yr ysgol ac ymweld ag adrannau tra bo'u plentyn ym Mlwyddyn 5. Cynhelir noson agored yn nhymor yr Haf ble bydd Penaethiaid Cynorthwyol yn cyflwyno gwybodaeth ar les, ADY, cwricwlwm a dysgu ac addysgu ac athrawon yn rhoi blas ar yr hyn sy'n digwydd ar lawr y dosbarth ar ffurf arddangosfa neu weithdy. Caiff y disgyblion gyfle i dderbyn amserlen o weithgareddau.

Cynhleir Noson Wybodaeth i rieni Blwyddyn 6 yn nhymor yr Haf er mwyn rhannu gwybodaeth allweddol am Ysgol Llanhari.

- <u>Diwnordau Pontio</u>

Trefnir diwrnodau ymweld yn ystod y flwyddyn sy'n helpu dysgwyr i ymgynefino ag athrawon, campws yr ysgol a dulliau addysgu. Cynllunir y diwrnodau hyn fel bo cyfle i ddysgwyr gael blas o weithgareddau ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Cynhelir yr un cyntaf ym Mlwyddyn 5 a dilynir hyn gan 3 dydd ym Mlwyddyn 6.

- <u>Gwersi Ieithoedd Rhyngwladol</u>

Trefnir bod un o athrawesau Adran Ieithoedd Rhyngwladol Ysgol Llanhari yn ymweld â blynyddoedd 5 a 6 bob ysgol o fewn y clwstwr yn wythnosol er mwyn creu perthynas a thanio brwdrydedd disgyblion cyn iddynt ddechrau ym Blwyddyn 7. Mae'r cydweithio hyn gyda'n hysgolion clwstwr wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder a chynnydd disgyblion wrth iddynt bonito i Flwyddyn 7.

- <u>Ymweliadau Lles</u>

Trefnwn i ALNCo a Phennaeth Cynorthwyol Lles Ysgol Llanhari i ymweld â phob ysgol/adran gynradd er mwyn trafod anghenion lles dysgwyr penodol yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf. Gwnawn baratoadau ar gyfer Blwyddyn 7 yn seiliedig ar yr ymweliadau hyn.

Bydd yr ALNCo yn sicrhau bod anghenion penodol disgyblion yn cael eu diwallu ym Mlwyddyn 7. Un o'n prif amcanion yw sicrhau bod parhad mor gyflym â phosibl i'r ddarpariaeth o gefnoageth a chynhaliaeth y bu'r disgyblion yn ei derbyn yn y Cynradd. Amcanir at sicrhau bod cynlluniau yn eu lle ar gyfer disgyblion cyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 7 fel bod athrawon yn llwyr ymwybodol o'u hanghenion a'r ddarpariaeth anegnrheidiol ar eu cyfer yn syth.

Cynigiwn i rieini/ofalwyr disgyblion Blwyddyn 6 i ymweld â'r ysgol yn unigol yn nhymor yr Haf os ydynt yn dymuno. Mae cyfle i ymweld â'r Hafan, a chwrdd â'r tîm lles.

Mae Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 7 yn cwrdd â disgyblion Blwyddyn 6 yn gyson yn ystod y flwyddyn er mwyn dod i'w hadnabod, i ddod yn wyneb cyfarwydd ond hefyd i ddeall anghenion dysgwyr unigol fydd angen cymorth wrth bontio. Bydd yr AC yn cynnal trafodaethau gydag aelodau staff allweddol o'r ysgolion Cynradd er mwyn casglu gwybodaeth a chael darlun cyflawn o bob unigolyn sy'n pontio i Fl.7 ym Medi 2025. Bydd yr AC yn darparu proffil cyflawn o bob plentyn i athrawon a Thiwtoriaid Personol y disgyblion.

- <u>Presenoldeb</u>

Rhennir gwybodaeth am bresenoldeb disgyblion yn ystod y cyfarfodydd casglu gwybodaeth. Ceir un swyddog presenoldeb yn ein clwstwr sy'n gyfarwydd â chefnogi teuluoedd ein hysgolion. Golyga hyn fod parhad yn y gefnogaeth a roddir i deuluoedd. Fel clwstwr, cytunwyd ar safonau cytûn parthed y canllawiau a roddir i rieni er mwyn annog presenoldeb da ac i geisio lleihau absenoldebau di-angen megis ar gyfer gwyliau.

# Cynllun Pontio Clwstwr Ysgol Llanhari

# 2025 i 2026

**Prif nodau ein Cynllun Pontio**

Mae nodau ein Cynllun Pontio yn dangos sut byddwn yn anelu at sicrhau'r deilliannau canlynol wrth i ddysgwyr Blwyddyn 6 bontio i Flwyddyn 7:

- ✓ Sicrhau parhad dysgu
- ✓ Cefnogi anghenion dysgu dysgwyr unigol
- ✓ Cefnogi cynnydd dysgwyr unigol
- ✓ Cefnogi anghenion lles dysgwyr unigol

**Adolygu a Monitro**

Ar y cyd gyda staff allweddol yr ysgolion Cynradd, bydd yr Arweinydd Pontio yn adolygu a monitro effaith y Cynllun Pontio.

| Amcan | Pryd? | Deilliant |
| --- | --- | --- |
| Cynnal Cyfrafodydd Llywio i Benaethiaid a staff allweddol y clwstwr unwaith y tymor | 22 Medi 2025 (Llun)<br>21 Ionawr 2026 (Mer)<br>14 Ebrill 2026 (Maw) | Cydgysylltu a rheoli'r broses bontio.<br>Gwerthuso effaith y Cynllun Pontio a chytuno ar Gynllun 2026 i 2027 |
| Cynnal 3 diwrnod Pontio i ddisgyblion Bl.6<br>Dysgwyr i gwrdd â Thiwtoriaid Bl.7 ar y trydydd diwrnod Pontio os yn bosibl | 1 Hydref 2025 (Mer)<br>3 Mehefin 2026 (Mer)<br>1 Gorffennaf 2026 (Mer) | Dechrau dod i adnabod dysgwyr Bl.6.<br>Dysgwyr yn dechrau ymgartrefu.<br>Cefnogi anghenion lles dysgwyr.<br>Sicrhau parhad dysgu.<br>Ymateb i bryderon sy'n deillio o'r holiadur yn dilyn diwrnod pontio 1. |
| Cynnal 'Bore o Hwyl' i ddisgyblion Bl.5 y clwstwr | 27 Chwefror 2026 | Cefnogi cynllun marchnata'r ysgol.<br>Dechrau dod i adnabod dysgwyr Bl.5.<br>Dysgwyr yn dechrau ymgartrefu.<br>Dechrau'r broses o gefnogi anghenion lles dysgwyr. |
| Athrawes Ieithoedd Rhyngwladol Ysgol Llanhari i barhau i gynnal gwersi wythnosol ym Ml.5 a 6 yr ysgolion Cynradd.<br><br>Rhannu holiadur Llais y Disgybl. | Wythnosol<br>Gweler Amserlen LET<br><br>Tymor y Gwanwyn | Cefnogi cynnydd dysgwyr wrth bonito o'r Cynradd i Fl.7.<br>Parhau i wella safonau yn yr Adran Ieithoedd Rhyngwladol.<br><br>Sicrhau gwerth am arian. |
| Cynnal Noson Wybodaeth i rieni/ofalwyr dysgwyr Bl.6 | 3 Mehefin 2026 (Mer) | Sicrhau bod y broses o bontio ym Medi 2026 yn un llyfn.<br>Cyfle i ddisgyblion Bl.6 i berfformio'r hyn maen nhw wedi dysgu ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymarfer yn ystod y diwrnod Pontio (Celfyddydau Mynegiannol) |
| Arweinydd Pontio (ar y cyd â'r Pennaeth Cynorthwyol Dysgu ac Addysgu) i drefnu diwrnod HMS Clwstwr gyda ffocws ar drafod cynnydd a chyrhaeddiad ac edrych ar dystiolaeth ar draws y clwstwr.<br><br>Cyfle i arweinwyr pob MDaPh i gyflwyno'r hyn mae'r is-bwyllgorau wedi bod yn ei gyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf | 27 Mawrth 2026 (Gwen) | Sicrhau parhad dysgu a datblygu a chynnal dealltwriaeth gytûn o gynnydd ar hyd y continwwm.<br><br>Sicrhau fod gan bob athro ar draws y clwstwr ddealltwriaeth clir o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni a bod mynediad ganddynt i'r adnoddau cytûn. |
| Is-Bwyllgorau'r MDaPh i gwrdd am hanner diwrnod yr un er mwyn paratoi ar gyfer yr HMS ym mis Mawrth. Pob MDaPh i:<br>-baratoi cyflwyniad i'w rannu â gweddill y clwstwr, gan gyfeirio at ba dogfennau penodol sydd wedi cael eu creu ac unrhyw nodweddion di-amod y dylai pawb fod yn cyfeirio atynt mwyn llywio cynllunio a dysgu ac addysgu | Gweler y calendr Pontio | Sicrhau fod gan bob athro ar draws yr ysgolion fynediad i holl adnoddau'r clwstwr (Teams) a'u bod yn llwyr ymwybodol o'n nodweddion di-amod.<br><br>Sicrhau parhad dysgu ar hyd y continwwm ac wrth bontio i Fl.7. Cefnogi cynnydd dysgwyr unigol. |
| Trefnu cyfleoedd i staff CC1 a 2 y clwstwr i weld arfer dda yn yr awyr agored ac o ran darpariaeth wedi'i gyfoethogi ar lawr y dosbarth.<br><br>Trefnu cyfleodd i'r un staff i arsylwi ar ei gilydd unwaith iddynt gael cyfle i weithredu ar arferion da a welwyd | Arsylwi ysgolion tu hwnt i'r clwstwr yn nhymor yr Hydref<br><br>Arsylwi ar draws y clwstwr yn nhymor y Gwanwyn | Cyfleodd euraidd i staff fedru rhannu syniadau a dysgu'n broffesiynol. Rhoi hyder i staff wrth gynllunio a sicrhau'r ddarpariaeth orau er mwyn datblygu dysgwyr annibynnol. Sicrhau cysondeb yn y blynyddoedd cynnar ar draws y clwstwr wrth gynllunio a darparu cyfleoedd ar ddechrau'r continwwm dysgu. |
| Arweinydd Cynnydd Bl.7 i ymweld â'r dosbarthiadau Blwyddyn 6 er mwyn cael darlun o'r dosbarthiadau | Tymor yr Haf | Sicrhau cysondeb o ran dealltwriaeth y clwstwr o gyrhaeddiad a chynnydd. |
| Cynnal Cyfarfodydd 'Cymedroli Cynnydd a Chyrhaeddiad'.<br>JRS a MES i gwrdd ag Athrawon Blwyddyn 6<br>-dangos tystiolaeth o waith disgybl / disgyblion **cymhedrol** ac **uwch eu gallu** ym Ml.6<br>-rhannu 'Dangosyddion Dosbarth'<br>-rhannu'r Daenlen 'Agwedd at Ddysgu'<br>-rhannu gwybodaeth am yr Asesiadau Personol (os yn barod) | 11 Mai 2026 | Sicrhau parhad dysgu a datblygu a chynnal dealltwriaeth gytûn o gynnydd.<br>Cefnogi'r broses o drosglwyddo gwybodaeth.<br>Andabod disgyblion sydd angen cymorth wrth wella'u hagwedd at ddysgu |

| | | |
|---|---|---|
| Arweinydd Cynnydd Bl.7 i drafod â athrawon Bl.6 er mwyn casglu gwybodaeth a chreu proffil cyflawn o bob plentyn (ar ddechrau'r cyfarfod uchod) | 11 Mai 2026 | Sicrhau bod anghenion dysgu pob dysgwr yn cael eu cefnogi wrth iddyn nhw bonito o'r ysgol gynradd i Fl.7 Ysgol Llanhari |
| ALNCo a Phennaeth Cynorthwyol Lles Ysgol Llanhari i gwrdd ag ALNCo ac athrawon Bl.6 yr ysgolion Cynradd. Adnabod disgyblion ADY a rhannu gwybodaeth perthnasol. | Tymor y Gwanwyn a'r Haf | Sicrhau bod anghenion lles bob disgybl yn cael eu cefnogi wrth iddyn nhw bontio o'r ysgol gynradd i Fl.7 Ysgol Llanhari<br>Sicrhau dilyniant a pharhad yn y ddarpariaeth wrth bontio (ADY) |
| Cynnig cyfle i rieni/ofalwyr dysgwyr Bl.6 i ymweld â'r Hafan a chwrdd a'r tîm cynhwysiant.  ALNCo a Phennaeth Cynorthwyol Lles i drefnu. | Ble'n bosibl yn nhymor yr haf | Sicrhau bod anghenion lles bob disgybl yn cael eu cefnogi wrth iddyn nhw bontio o'r ysgol gynradd i Fl.7 Ysgol Llanhari |
| ALNCo a Phennaeth Cynorthwyol Lles i rannu gwybodaeth allweddol am ddisgyblion sy'n ymuno ym Ml.7 | HMS Medi 2026 | Sicrhau bod anghenion lles bob disgybl yn cael eu cefnogi wrth iddyn nhw bontio o'r ysgol gynradd i Fl.7 Ysgol Llanhari |

***Cytunwyd ar y Cynllun Pontio hwn ar ran Byrddau Llywodraethol Ysgol Llanhari, Ysgol Gynradd Dolau, YGG Tonyrefail ac YGGG Llantrisant***